# Adroddiad Blynyddol

# Menter Gorllewin Sir Gâr

Ebrill 2022 - Mawrth 2023

Amcanion:
Annog a chefnogi datblygiad cymunedol, ieithyddol ac economiadd




Menter
Gorllewin Sir Gâr

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd ..... 3

Staff Menter Gorllewin Sir Gâr ..... 4

Plant a phobl ifanc ..... 6

Cymunedau Cymraeg ..... 7

Busnesau ..... 8

Cynhwysiad Digidol ..... 8

Cynllun Profi ..... 9

Mentrau Iaith Cymru ..... 10

Gŵyl Canol Dre ..... 10

Partneriaethau ..... 11

# Rhagair y Cadeirydd

Blwyddyn o newid a datblygu fuodd hon i'r Fenter. Gwelwyd newid mewn staff ac mewn prosiectau ond wynebwyd pob her gydag agwedd bositif er mwyn llwyddo i ddarparu'r gwasanaeth gorau i gymunedau Gorllewin Sir Gar.

Braf oedd gallu cynnal Gŵyl Canol Dre unwaith eto yn dilyn seibiant gorfodol Covid-19. Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus dros ben ac yn binacl i waith y Fenter eleni. Ceir manylion pellach am yr ŵyl a gweithgareddau a phrosiectau eraill y flwyddyn yn yr adroddiad hwn.

Rhaid diolch wrth gwrs i'r staff am eu hymroddiad a gwaith caled. Mae ein dyled fel ymddiriedolwyr yn fawr iddynt. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl ymddiriedolwyr hefyd am roi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn sicrhau bod y Fenter yn gweithredu'n gywir ac yn effeithiol.

Rydym ni gyd ym Menter Gorllewin Sir Gâr yn ddiolchgar iawn i'n prif gyllidwyr sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr, Cronfa Loteri Fawr, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig (CAEDG). Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth barhaus.

Mae cynlluniau'r dyfodol wedi hen ddechrau ac fe fydd y blynyddoedd i ddod yn rhai cyffrous iawn i'r Fenter. Yn dilyn cyhoeddiadau siomedig am y Gymraeg yn nata'r cyfrifiad mae gwaith y mentrau iaith ar draws Cymru ac yn sicr yma yng Ngorllewin Sir Gar yn parhau i fod yn hanfodol bwysig er mwyn cyrraedd ein nod o gynyddu defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn yr ardal.

Arwel Lloyd (Cadeirydd)

## Pwyllgor rheoli

| | |
|---|---|
| Arwel Lloyd | Cadeirydd |
| Dafydd Davies | Trysorydd |
| Dafydd Hughes | |
| Eleri Davies | |
| Hazel Evans | |
| Jean Lewis | |
| Ken Davies (tan Mawrth 2023) | |
| Linda Evans | |
| Lowri Lloyd | |
| Luned Thomas | |
| Myfanwy Jones | |

# Staff Menter Gorllewin Sir Gâr

| | |
|---|---|
| Dewi Snelson | Prif Weithredwr |
| Gareth Davies | Uwch Swyddog Maes Digidol |
| Meinir Evans | Cydlynydd Profi |
| Nia ap Tegwyn | Uwch Swyddog Iaith |
| Alma Roberts | Swyddog Datblygu |
| Betsan Williams | Swyddog Datblygu (ers Awst 2022) |
| Denise Davies | Swyddog Cyllid a Gweinyddol |
| Gwawr Williams | Swyddog Cyfathrebu |
| Gwyneth Morris | Swyddog Datblygu |
| Heledd Llwyd | Swyddog Busnes a Nawdd |
| Huw Evans | Swyddog Maes Digidol (ers Mehefin 2022) |
| Huw Lloyd | Swyddog Maes Digidol |
| Luned Jones | Swyddog Datblygu (ers Gorffennaf 2022) |
| Roisin O'Toole | Swyddog Prosiect Profi (ers Mehefin 2022) |
| Cerian Rees | Swyddog Prosiect Profi (tan Awst 2022) |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu (tan Ebrill 2022) |
| Cerys Pinkman | Swyddog Prosiect Podlediadau (tan Hydref 2022) |
| Gruff Huws | Swyddog Maes Digidol (tan Awst 2022) |
| Llew Evans | Swyddog Maes Digidol (tan Mehefin 2022) |
| Meinir Davies | Swyddog Prosiect Profi (tan Mehefin 2022) |
| Sioned Thomas | Swyddog Prosiect Profi (tan Ebrill 2022) |

# Teuluoedd

Mae'r Fenter yn darparu rhaglen o weithgareddau i deuluoedd er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio cymaint o Gymraeg â phosib ar yr aelwyd ac yn gymdeithasol. Ein bwriad hefyd yw creu arferion iaith positif sy'n cynnwys patrwm o gymdeithasu'n naturiol yn y Gymraeg yn rheolaidd. Rydym yn creu cyfleoedd amrywiol er mwyn sicrhau ein bod yn apelio at gynifer o bobl â phosib, ac yn sensitif i gallu ieithyddol teuluoedd, diddordebau ac anghenion unigolion. Mae ein darpariaeth yn cynnwys sesiynau megis sesiynau stori, teithiau bygi, diwrnodau hwyl a sioeau teuluol.

"Diolch Luned am ddiddori ni ar fore dydd Mawrth yn Llanllwni. Ni wedi joio mas draw a byddwn yn cadw llygaid mas i weld beth arall chi'n trefnu yn yr ardal. Mor neis bod y plant yn gallu chwarae gyda phlant bach arall yn Gymraeg."

"Diolch am bore 'ma - wedi joio! Roedd y merched wir wedi mwynhau eu profiad cyntaf o chwarae anniben. Os fydd rhywbeth tebyg yn digwydd eto, plîs rhowch wybod- byddwn ni wir eisiau mynychu."

"Diolch i'r Fenter am drefnu'r digwyddiad. Roedd yn grêt cael mynd â'r plant i weld Sion Corn Cymraeg. Wir hoffwn i chi barhau gyda'r fath o ddarpariaeth a sesiynau sydd ar gael nawr. Diolch."

"Lleoliad grêt a glân (Llannewydd) Staff yn gyfeillgar iawn a Siani Sionc brwdfrydig iawn. Oedd y sesiwn llawn bwrlwm a'r amseru yn berffaith. Diddordeb y plant yn cael ei gadw. Diolch"






Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd 94 digwyddiad a fynychwyd gan dros dwy fil o bobl.

# Plant a phobl ifanc

Eleni trefnwyd rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau i blant a phobl ifanc gan ei fod yn gwbl hanfodol bod y to iau yn cael y cyfle i gymdeithasu a defnyddio'u Cymraeg tu allan i'r dosbarth. Rydym felly'n ceisio trefnu gweithgareddau amrywiol a fydd at ddant bawb, beth bynnag yw eu hoedran a'u diddordebau, gan gynnwys Cwis Dim Clem, clybiau drama, gigiau, fforwm ieuenctid, gemau buarth, diwrnodau antur a llawer mwy. Mae'n allweddol bod cyfleoedd gwerthfawr o safon uchel yn cael eu trefnu ar gyfer y grŵp targed yma ac mae'r Fenter yn gweithio'n galed i ddenu pobl ifanc a sicrhau eu hymrwymiad i'n gweithgareddau.

"Thank you for the Drama Clwb sessions. Keep it up. My son loves coming to you every week to the sessions. Thank you for organising sessions for the children every week."

"Diolch yn fawr am gynnal y Cwis Dim Clem, mwynhaodd y plant mas draw. Roedd yn gyfle gwych i gael profiad newydd, yn ogystal a chwrdd a phlant o ysgolion gwahanol oedd yr un oed a nhw. Roedd hyn yn rywbeth pwysig yn enwedig ar ôl y cyfnod clo."

"Fantastic sessions. My son enjoyed them immensely. My son is confident in speaking Welsh, it was great that he could attend such an activity and not have to turn to speak in English."

"Gweithgareddau buddiol iawn am gymaint o resymau - hunan hyder, annibynniaeth, iechyd corfforol a meddyliol, datblygu sgiliau amrywiol, gwneud ffrindiau newydd ac yn fwy na dim mwynhau a chael hwyl a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg!





Rydym wedi cael blwyddyn brysur a gweithgar gyda 169 gweithgaredd a 5,425 yn mynychu.

# Cymunedau Cymraeg

Meithrin Cymunedau Cymraeg ffyniannus yw un o brif hanfodion y fenter, ac mae gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau ac unigolion dros yr ardal yn ran allweddol o'n gwaith.  Rydym yn cynnal ystod eang o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden, a fydd yn apelio at gynifer o bobl leol â phosib, er mwyn sicrhau bod yna gyfleoedd i bobl wirfoddoli ac i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, i ymarfer eu defnydd o'r iaith ac i feithrin cysylltiadau ar lawr gwlad a fydd yn cyfoethogai eu bywydau.  Mae ein gweithgareddau'n cynnwys dramau, clybiau cinio, clybiau darllen, gweithdai amrywiol a sesiynau ffitrwydd.  Yn ogystal rydym yn cynnal sesiynau rheolaidd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg ac yn trefnu Tudalen Gymraeg a cholofn wythnosol y Carmarthen Journal. Hefyd yn 2022 llwyddom i gynnal Gŵyl Canol Dref cyntaf ers y cyfnod clo.

"Diolch yn fawr am y sesiynau Clwb Darllen yn ystod y misoedd ddiwethaf. Rwyf wir wedi mwynhau darllen amrywiaeth o storïau gwahanol, gan awduron amrywiol o Gymru. Rwyf yn gwerthfawrogi chi yn cynnal y sesiynau yma'n fisol yn ystod misoedd yr Hydref ar Gaeaf."

"Ga i ddiolch eto i ti am drefnu y tri chinio i'r henoed yn y ganolfan gymuned. Roedd pawb yn hapus ac yn bles iawn o'r Fenter. Gobeithio fydd na rhywbeth tebyg eto yn y dyfodol neu unrhywbeth arall fyddwch yn mofyn cynnig."

"Well organised event.  The room was very suitable. There was enough choice with everything looking lovely. Thank you for organising."

"Roedd hi'n noson hyfryd. Arbenigwraig yn ein dysgu. Naws Nadoligaidd a lleoliad hyfryd. Diolch i MGSG am drefnu, rydym yn ffodus i gael Menter mor weithgar yn lleol."






Rydym wedi trefnu 78 o weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac mae dros 6,800 wedi manteisio a mwynhau'r darpariaeth.

# Busnesau

Ers i'r elfen Lleol o Helo Blod ddod i ben, roeddem fel Menter yn awyddus i'r gefnogaeth i fusnesau barhau yn yr ardal. Er ein bod yn parhau i gynnig cefnogaeth un i un i fusnesau ar draws yr ardal, penderfynwyd canolbwyntio yn ystod i flwyddyn i gydweithio gyda'r Siambrau Masnach/Ardal Gwella Trefi yn yr ardal, fel bod modd i'r rheiny ddylanwadu ar y busnesau yn y trefi i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Mynychwyd cyfarfodydd rheolaidd yng Nghaerfyrddin a Castell Newydd Emlyn er mwyn cynnig cefnogaeth ddwys i bwyllgorau ac aelodau staff. Cefnogwyd digwyddiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y digwyddiadau oedd y sefydliadau uchod yn eu trefnu yn ddwyieithog trwy gyfieithu, mynychu eu digwyddiadau, eu cyfeirio at fudiadau/gwasanaethau eraill oedd yn medru eu helpu ag ati. Bu llawer o gydweithio dwys gyda'r Cyngor Tref yng Nghaerfyrddin hefyd er mwyn cefnogi eu digwyddiadau rheolaidd a sicrhau bod yr ymgysylltiad gyda'r busnesau yn y digwyddiadau hynny â phwyslais ar y Gymraeg.

# Cynhwysiad Digidol

Yn ystod 2022-2023 parhaodd MGSG Digidol, sydd yn cael ei adnabod fel adran o Menter Gorllewin Sir Gâr, i weithredu cytundebau ar ran y Canolfannau Gwaith, i weithio gyda'r di-waith. Drafftio CVs a helpu i greu cyfrifon ar wefannau chwilio am swyddi oedd y prif feysydd cymorth y gofynnwyd amdanynt gyda'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno ar sail un i un mewn Canolfannau Gwaith unigol.


Yn ystod y cyfnod dan sylw gweithredwyd cytundebau ar ran Canolfannau Gwaith yn ardaloedd Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Abertawe a Rhondda Cynon Taf. Gweithiwyd gyda dros 1,000 o unigolion a'u cyfeiriwyd gan y Canolfannau Gwaith unigol am gefnogaeth a chymorth gan MGSG Digidol yn ystod 2022-2023.

Cefnogwyd tua 1,000 o bobl a oedd yn chwilio am waith a'u cyfeiriwyd gan Ganolfannau Gwaith ar draws y pum sir.

MGSG Digidol

# Cynllun Profi

Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri, rydym wedi parhau i ddatblygu cynllun Profi i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau byd gwaith. Mae gwefan www.Profi.cymru wedi'i greu gyda chynnwys digidol apelgar i gynorthwyo pobl ifanc i fod yn fwy ymwybodol o'u sgiliau a'u cryfderau unigol.




Bydd hyn yn gwella cyfleoedd gyrfa i bobl ifanc wrth iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'u cryfderau a gwella ansawdd eu ceisiadau ar gyfer cyfleoedd gwaith a datblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn ymgeisio yn hyderus am gyfleoedd eraill yn y dyfodol. Mae'r cynllun hefyd yn annog pobl ifanc i wneud yn fawr o'u sgiliau Cymraeg wrth ymgeisio trwy amlinellu manteision meddu ar yr Iaith Gymraeg wrth ystyried dewisiadau gyrfaol ac ymgeisio am swyddi. Mae Profi hefyd wedi helpu ein pobl ifanc i ddod yn fwy ymwybodol o'r ystod mawr o yrfaoedd, sydd ar gael iddynt yn lleol.

Yn ogystal â chreu gwefan ryngweithiol, mae cyllid LEADER wedi ein galluogi i greu cwis sgiliau digidol rhyngweithiol a chyfres o bodlediadau a ffilmiau byr gyda'r bwriad o addysgu pobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael o fewn ein cymunedau a'u hannog i ystyried aros yn yr ardal ar gyfer gyrfa, neu ddychwelyd ar ôl bod yn y Brifysgol, neu goleg. Mae cynnwys y wefan a thaflennu gwybodaeth yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfoeth o gyfleoedd sydd ar gael yn y sectorau twf allweddol o fewn Sir Gâr.

Er mwyn ychwanegu gwerth at y gyfres o ffilmiau byr a rhannu gwybodaeth am y farchnad lafur mewn fformat digidol, apelgar, mae taflenni gwybodaeth wedi'u creu ar gyfer pob sector. Amlinellir data, megis y galw yn y dyfodol a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr, gyda dolenni i wefannau defnyddiol wedi'u cynnwys ar gyfer ymchwil pellach a chynllunio gyrfa.

Mae'r cwis sgiliau Profi a'r gyfres podlediadau a ffilmiau byr wedi cael eu hyrwyddo'n eang i holl Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin ac mae'r pobl ifanc, athrawon a gweithwyr cymorth wedi nodi pa mor hawdd a greddfol ydyw i ddefnyddio'r cynnwys, sy'n adlewyrchiad o'r ffaith ein bod wedi dylunio'r deunyddiau hyn i gyd ar [www.profi.cymru](http://www.profi.cymru).

Llwyddodd cynllun Profi i gyrraedd rhestr fer categori 'Dylanwadu' yn noson dathlu Mentrau Cymru yn Ionawr 2023.



# Mentrau Iaith Cymru

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn rhan o rwydwaith Mentrau Iaith Cymru. Mae 22 o Fentrau Iaith yn weithredol yng Nghymru. Yn genedlaethol, mae'r Mentrau yn cynnal dros 300 o swyddi, yn ogystal â chynnig gwaith rhan-amser a chyfleoedd achlysurol eraill ar ben hynny. Mae'r Mentrau yn gweithio gyda thua 1,000 o wirfoddolwyr ac yn cynnal miloedd o weithgareddau bob blwyddyn.

MENTRAU IAITH

# Gŵyl Canol Dre

Cynhaliwyd Gŵyl Canol Dre am y 3ydd tro ar y 9fed o Orffennaf 2022 ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin. Llwyddwyd i gyflwyno perfformiadau a gweithgareddau Cymraeg newydd a nodedig i dros 4,000 o drigolion y sir a thu hwnt a cafwyd dathliad gwych o'r iaith Gymraeg a chyflwynwyd yr iaith i gynulleidfaoedd, na fyddent efallai fel arfer yn cael y cyfle i'w chlywed na'i defnyddio. Erbyn hyn dyma'r unig ŵyl gelfyddydol, sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn rhad ac am ddim o'i math yng Ngorllewin Cymru. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal yr Ŵyl wedi cyfnod rheolaethau Cofid, felly roedd yn braf medru ail-gydio yn yr ŵyl wedi cyfnod o seibiant.

Cynhaliwyd hyd at 50 o weithdai amrywiol ar draws y bedair pabell gwahanol â'r rheiny yn amrywio o ddrama i chwaraeon i lenyddiaeth a chelf, gyda sesiynau i ystod eang o oedrannau. Llwyddwyd i roi llwyfan i fandiau Cymraeg lleol a chenedlaethol a rhoi cyfle iddynt arddangos eu talentau ar y Prif Lwyfan gan hefyd rhoi lwyfan i ysgolion a mudiadau lleol ar y Llwyfan Berfformio trwy gydol y diwrnod. Roedd yr Ŵyl yn cynnig ardal stondinau, mudiadau ac ardal bwyd a diod, oedd yn cynnig ffenest siop i fusnesau lleol i werthu nwyddau a chynnyrch ac i fudiadau lleol i hyrwyddo eu gwasanaethau.

GŴYL CANOL DRE

# Partneriaethau

Mae gan y Fenter gysylltiadau agos gydag ystod eang o grwpiau, mudiadau a sefydliadau ac rydym yn cydweithio gyda:

Actif Sir Gâr
Adran Gyfloaeth a Phensiwn (DWP)
Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach Felindre
BID Caerfyrddin
Busnesau lleol
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Caerfyrddin Gyda'n Gilydd
Canolfan Chwarae Sgiliau
Canolfannau Teulu
Carmarthen Journal
CAVS / CAVO
Cered
Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Coleg Sir Gâr
Cydweithfa Masnachwyr CNE
Cynghorau Tref a Chymuned
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymraeg i Blant
Cynllun Local Motion
Dysgu Cymraeg
Gyrfa Cymru
Heddlu Dyfed Powys
HUTS
Loteri Fawr
Llywodraeth Cymru
Menter Cwm Gwendraeth Elli
Menter Dinefwr
Menter Iaith Sir Benfro
Mentrau Iaith Cymru
Merched y Wawr
Mudiad Meithrin
Neuaddau trefi a phentrefi
Papurau Bro
Partneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol
Plaid Cymru
Rhwydwaith Busnesau Hen Dref Caerfyrddin
Rhwydwaith Cyfuno/Fusion Sir Gâr
Swyddog Ymgysylltu Llywodraeth San Steffan
Swyddogion Cynllun Datblygu Gwledig Sirol
Syniadau Mawr Cymru
Tîm LEADER Sir Gâr
Theatr Genedlaethol Cymru
Yr Ardd, Pont Tyweli
Yr Atom
Yr Egin
Yr Urdd
Ysgolion cynradd ac uwchradd

Mae'r Fenter yn aelod o'r Grŵp Cefn Gwlad Sirol, y Grŵp Gweithredu Lleol ynghyd â Grŵp Partneriaeth Mentrau Sir Gâr.

Cefnogwyd gan / Supported by Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council | Cronfa Gymunedol Community Fund | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig / European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas | Llywodraeth Cymru Welsh Government

Llawr 1af, CCF Cyf, Stryd y Bont, Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DX
Yr Atom, 18 Stryd y Brenin, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1BN
01239 712 934 | www.mentergorllewinsirgar.cymru
Cwmni Cyfyngedig drwy warant - rhif cofrestredig 5981013 | Rhif Elusen Gofrestredig 1147184